OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 2734 (Cy.241)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *19 Hydref 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *5 Tachwedd 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 77(4), 78(6) a 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**), ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol o dan adran 84(1) o'r Ddeddf honno a chan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ar faterion diogelwch bwyd(**2**), ac yntau'n cael ei ddynodi(**3**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**4**)) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu fwyd anifeiliaid a roddir iddynt, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran ddiwethaf uchod (i'r graddau na ellir gwneud y Rheoliadau hyn o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth 1970 a grybwyllir uchod), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig a deuant i rym ar 5 Tachwedd 2004.

### Diwygio Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999(**5**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â pharagraff (2).

(**1**) 1970 p. 40. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999 (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672).

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. O dan Erthygl 3 o'r Rheoliad EC mae "food law" yn rhychwantu bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu fwyd anifeiliaid a roddir i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.

(**3**) O.S. 2003/2901.

(**4**) 1972 p. 68.

(**5**) O.S. 1999/1663, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1871, O.S. 2001/2253 (Cy.163); O.S. 2002/1797 (Cy.172); O.S. 2003/1677 (Cy.180); O.S. 2003/1850 (Cy.200) ac O.S. 2003/3119 (Cy.297).

(2) Yn lle paragraff (3)(b)(ii) o reoliad 6 (cymhwyso dulliau dadansoddi) rhodder y paragraff a ganlyn —

"(ii) the procedure set out in Commission Directive 2003/126/EC(**6**) on the analytical method for the determination of constituents of animal origin for the official control of feedingstuffs shall be used.".

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*D.Elis-Thomas*

19 Hydref 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) OJ Rhif L339, 24.12.2003, t.78.

(**7**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig, ac maent yn diwygio ymhellach Reoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 (O.S. 1999/1663, fel y'i diwygiwyd eisoes) sy'n gymwys i Brydain Fawr yn gyfan.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith Gyfarwyddeb y Comisiwn 2003/126/EC (OJ Rhif L339, 24.12.2003, t.78) ar y dull dadansoddi ar gyfer penderfynu ar gyfansoddion sy'n dod o anifeiliaid er mwyn rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol.

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn yn adolygu Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 drwy ddarparu bod rhaid i'r weithdrefn a nodir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2003/126/EC gael ei defnyddio pan fydd archwiliad microsgopig yn cael ei gynnal at ddibenion penodol (rheoliad 2(2)).

**4.** Lluniwyd arfarniad rheoliadol o effaith yr offeryn hwn ar gostau busnes ac fe'i rhoddwyd yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â Nodyn Trosi sy'n nodi sut mae prif elfennau Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/126/EC yn cael eu trosi i'r gyfraith ddomestig gan y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth Uned Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd, CF10 1EN.